Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
ENNILL LLWYR YW ENNILL IAITH

18/07/23

Annwyl Riant / Warcheidwad,

Hoffwn ddiolch i chi fel rhieni a gwarcheidwaid am eich cefnogaeth barhaus i ni fel ysgol dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae wedi bod yn flwyddyn hynod o brysur unwaith eto a gwych yw gallu dathlu llwyddiannau niferus ein disgyblion. Mae'r bartneriaeth ysgol a chartref llwyddiannus yma yn allweddol i sicrhau llwyddiant academaidd eich plentyn - y flaenoriaeth i ni gyd. Mae ein cefnogi drwy hyrwyddo tair egwyddor yr ysgol am ddefnydd parhaus o'r Gymraeg y tu allan i wersi, Parch a Dyfalbarhad yn cadarnhau agwedd bositif ac iach disgybl tuag at ddysgu a'i addysg yma ym Mryn Tawe. Edrychwn ymlaen yn fawr at barhau â'r bartneriaeth yma ac i ddathlu'n ffurfiol gyda'n gilydd wrth i Fryn Tawe ddathlu ei 20fed blwyddyn ers agor yn 2003!

Gyda diwedd y tymor yn nesáu yn gyflym iawn hoffwn rannu rhai dyddiadau pwysig gyda chi rhwng nawr a dechrau'r flwyddyn academaidd nesaf:

| **Dyddiad** | **Gweithgaredd** |
|---|---|
| **DIWEDD TYMOR** | |
| Llun 24.07.23 | HMS – dim ysgol i ddisgyblion |
| **CANLYNIADAU SAFON UWCH A TGAU** | |
| Iau 17.08.23 | Canlyniadau Safon Uwch |
| Iau 24.08.23 | Canlyniadau TGAU |
| **DECHRAU TYMOR YR HYDREF 2023-24** | |
| Gwener 01.09.23 | HMS – dim ysgol i ddisgyblion |
| Llun 04.09.23 | HMS – dim ysgol i ddisgyblion |
| Mawrth 05.09.22 | Blwyddyn 7, 12 a 13eg yn unig i fynychu'r ysgol |
| Mercher 06.09.22 | Pob disgybl yn dychwelyd Bl. 7-13eg |

Yn ogystal, hoffwn ddiolch i staff yr ysgol am eu gwaith dyfal a'u parodrwydd i fynd y filltir ychwanegol ar ran eich plentyn. Hoffwn ddiolch a dymuno'n dda yn bersonol i ddeg aelod o staff sydd yn ein gadael ar ddiwedd eleni.

Mae ein diolch yn fawr i aelodau o'n tîm o gynorthwywyr dysgu sydd yn ein gadael ar ddiwedd y flwyddyn eleni - Miss Amelia Williams a Mrs Bethan Thomas.

Hoffwn ddiolch a dymuno'n dda hefyd i griw o athrawon fydd yn ein gadael ar ddiwedd y tymor: Mr Elidir Dafydd o Adran y Gymraeg; Mrs Jill Davies, Mrs Lisa Davies a Mrs Dawn Evans o'r Adran Saesneg; Mr Arwyn Lloyd a Mrs Amy Wright o'r Adran Wyddoniaeth; Mr Rhydian Davies o'r Adran Fathemateg; Miss Josie Perkins o'r Adran DT; Miss Sara Patterson o'r Adran Addysg Gorfforol a Miss Gwenda West o'r Uned Iaith a Lleferydd. Diolch i chi gyd am eich cyfraniad amhrisiadwy i brofiadau ein disgyblion ym Mryn Tawe a chofiwch y bydd wastad croeso yma i chi gyd!

Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600
Ebost: ygg.bryntawe@swansea-edunet.gov.uk
www.bryntawe.swansea.sch.uk
Pennaeth : Mr Simon Davies

Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe

ENNILL LLWYR YW ENNILL IAITH

Edrychwn ymlaen at ddathlu **canlyniadau disgyblion y 6ed ar y 17eg o Awst** eleni a **chanlyniadau TGAU blynyddoedd 11 a 10 ar y 24ain o Awst** - dymuniadau gorau i bawb! Bydd staff yr ysgol ar gael i gefnogi ac i drafod unrhyw gwestiynau all godi yn sgìl y canlyniadau. Byddwn ar agor am 08:30 fel y gall disgyblion gasglu eu canlyniadau. Bydd cyfle i ddisgyblion bl.11 gofrestru'n ffurfiol ar gyfer dychwelyd i'r 6ed ar y 24ain.

Byddwn yn **cau ychydig yn gynt ar brynhawn ddydd Gwener yma, yr 21ain o Orffennaf.** Bydd y disgyblion yn gadael ar ôl cinio, gyda'r **bysys yn eu cludo adref am 12:45.**

Ga i ddymuno gwyliau hapus i'n disgyblion a'n rhieni, gan obeithio y cewch gyfle i ymlacio a mwynhau, cyn ein bod yn croesawu ein disgyblion yn ôl ar gyfer blwyddyn lwyddiannus a phrysur eto yn yr ysgol, gyda chyfle i ddathlu Bryn Tawe yn 20 mlwydd oed!

Yn y cyfamser, os oes gennych unrhyw syniadau y gallwn eu defnyddio i wella bywyd ein disgyblion ym Mryn Tawe ymhellach, cysylltwch â mi yn yr ysgol neu ar yr e-bost isod i drafod.

Yn ddifuant,

Simon Davies

Pennaeth

Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600
Ebost: ygg.bryntawe@swansea-edunet.gov.uk
www.bryntawe.swansea.sch.uk
Pennaeth : Mr Simon Davies